**Adnodd 1**

# Mawrth 1af 2009 Taith i mewn i Weld

## Thema'r wythnos:

# Pobl y newidiwyd eu taith ysbrydol trwy ddod i gysylltiad â Iesu

## 1. Dechrau'r daith: edrychwch o'ch cwmpas!

*Miliwn o saethau, a minnau'n*
*darged, lle mae'r llinellau'n cwrdd*
*ac yn cael eu clymu*

Yr Archesgob Rowan Williams

**Gyda chaniatâd caredig Archesgob Caergaint; (h) Rowan Williams 2009**

Mae'r daith ysbrydol sy'n ein tywys drwy'r Grawys ac i mewn i'r Pasg yn dechrau gyda rhodd gweld. Yng nghreadigaeth Duw, mae llygaid gan y mwyafrif o greaduriaid, ac mae gan lawer ohonynt lygaid sydd wedi'u llunio'n arbennig i'w helpu i weld y byd o'u cwmpas mewn ffyrdd sy'n eu helpu i oroesi. Byddwn ni'n sôn am 'lygad barcud', er enghraifft. Mae gan anifeiliaid ysglyfaethus fel cathod lygaid sy'n wynebu'r blaen fel eu bod yn medru ffocysu'n gadarn ar yr hyn maent yn gobeithio'i ddal i ginio. Mae gan yr ysglyfaeth, llygod er enghraifft, lygaid ar ochrau eu pennau, fel eu bod yn medru gweld llawer mwy o'r hyn sydd o'u cwmpas a'r hyn allai fod yn dod ar eu hôl. Mae gwenyn yn gweld lliwiau nad ydynt yn weladwy i ni ac yn cael eu denu gan flodau llachar a allai ymddangos yn ddigon diflas i ni. Felly pam mae llygaid gennym, a beth rydym ni i fod i'w weld drwyddyn nhw?

Gan ein bod yn fodau ysbrydol, myfyriol, un o'r pethau y gallwn ei weld, os edrychwn yn iawn, yw tystiolaeth bod Duw ar waith yn y byd. Mae'r Beibl yn dweud wrthym am lawer o bobl a fu'n rhyfeddu at dystiolaeth uniongyrchol o weithgaredd Duw. Mae gennym ni'r gallu i *sylwi* ar y byd o'n cwmpas; gallwn nodi beth sy'n anghyffredin neu'n wahanol a cheisio gwneud synnwyr ohono. Rydym mewn sefyllfa i weld a gwerthfawrogi harddwch a chael ein trallodi gan hylltod. Byddwn ni'n sylwi ar gymdogaeth sydd fel petai wedi dirywio; ond gallem hefyd fynd allan a mwynhau adeilad newydd, parc neu ardal sydd wedi cael ei hadfywio. Yn gyffredinol rydym yn chwilio am bethau sy'n rhoi pleser i ni ac sy'n awgrymu i ni bod bywyd yn dda; rydym yn cwyno am y pethau hynny rydym yn eu gweld o'n cwmpas neu ar y teledu sy'n dangos i ni gyflwr ofnadwy ein byd pan aiff pethau o chwith.

Y broblem yw ei bod hi'n hawdd bod yn hunanfoddhaus neu'n ddiog, a pheidio â defnyddio'r gallu i weld a roddwyd i ni yn iawn. Gallwn ddod mor gyfarwydd â gweld y pethau rydym ni'n eu cymryd yn ganiataol fel nad ydym yn sylwi arnynt nes eu bod wedi diflannu. Gallwn ddod yn gyfarwydd â hylltod, pethau toredig a dioddefaint, gan anghofio eu bod yn ein herio ac yn cyflwyno neges y gallai'r byd o'n cwmpas fod yn well na hyn, ac mai dyna sut y dylai fod.

Yn y Grawys, wrth i ni edrych ymlaen at hoelio'n meddyliau ar Dduw a'r hyn y mae wedi'i wneud trwy ei Fab, Iesu Grist, mae angen i ni edrych yn fwy manwl. Mae angen i ni roi sylw i'r hyn rydym yn ei weld ymhobman o'n cwmpas a dysgu sut mae gweld mewn ffordd wahanol. Gallwn beidio â gweld popeth mae Duw yn ei wneud yn y greadigaeth o'n hamgylch, a methu â gweld yr arwyddion y mae'r Ysbryd Glân yn eu gadael ar hyd y lle i ni. Rydym yn methu ag ymateb i Iesu a'i alwad i ni trwy beidio â gweld yr arwyddion hyn a'u rhannu ag eraill.

## Gweithgaredd

Edrychwch ar y llun



*Sut mae'r llun yma'n gwneud i chi deimlo?*

*Beth mae'r llun yma'n ei ddweud am fodau dynol? Ac am ein byd?*

*Beth allai Duw fod yn ei ddweud wrthym ni drwy'r llun yma?*

Mae www.chrisjordan.com yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a threuliant mewn ffordd wahanol. Gallwch ei weld yn siarad am ei waith yn http://in.youtube.com/watch?v=AXQDpdUpQgA

# 2. Treiddio'n Ddyfnach: Meddwl am fod yn ddall

Beth os na allwn weld o gwbl? Sut brofiad yw bod yn ddall o'ch genedigaeth neu fynd yn ddall? Gall fod yn anodd i bobl sy'n gallu gweld ddychmygu hynny, nid lleiaf oherwydd bod cymaint o'n bywyd beunyddiol yn rhagdybio ein bod yn *gallu* gweld, hyd yn oed os yw hi'n dywyll. Mae'r Beibl hefyd yn llawn iaith sy'n cyfeirio at 'weld'. Ac eto, bydd llawer ohonom, wedi'r cyfan, yn cael profiad o'n golwg yn methu wrth i ni heneiddio ac efallai na fyddwn yn gallu gweld mor glir nac mor eglur ag yr ydym ni nawr, neu y buom ar un adeg. Beth rydym ni'n ei ddysgu o brofiad pobl ddall ynghylch colli neu ddiffyg golwg, a sut mae dod i gysylltiad â Duw yn y cyflyrau hynny?

**Stori:**

*Pan oedd organydd eglwys dall yn Norfolk yn darllen yn y gwasanaeth carolau Nadolig gan ddefnyddio Braille, bu'n rhaid iddo stopio, ac ymddiheurodd ei fod yn darllen yn araf 'oherwydd bod ei ddwylo'n rhy oer'.*

## Gweithgaredd

Weithiau mae swyddogion diogelwch tân yn dweud wrthym am ystyried sut byddem yn dianc o'n cartrefi petai hi'n dywyll a phobman o'n hamgylch yn llawn mwg. Rydym yn gwybod bod pobl sy'n gallu gweld yn gallu colli eu ffordd os bydd rhaid iddynt symud o gwmpas mewn tywyllwch dudew yn sydyn, ac weithiau ni allant ganfod eu ffordd hyd yn oed mewn mannau cyfarwydd iawn. Felly mewn argyfwng mae'n bwysig cael syniad clir ble rydych chi'n mynd a pha rwystrau allai eich wynebu.

Dychmygwch nawr eich bod gartref yn y nos a bod toriad yn y trydan. Mae angen i chi gael hyd i dorts a/neu ganhwyllau neu ffynhonnell olau arall, a hynny mewn tywyllwch llwyr. Ydych chi'n gwybod ble mae cael hyd iddynt? Allwch chi ddychmygu'r mannau hynny'n glir? Sut dewch chi o hyd i'r ffordd? Meddyliwch am ba arwyddion byddech chi'n chwilio â'ch synhwyrau eraill, a sut byddech chi'n gwybod ble roeddech chi. Pa beryglon allech chi ddod ar eu traws? Ydych chi'n gwybod faint o risiau sydd, neu'n union ble mae dolen y drws?

*Beth wnaech chi petaech chi'n mynd ar goll neu'n colli eich ffordd yn y tywyllwch?*

*Sut brofiad yw methu â defnyddio'ch llygaid?*

*Gwrandewch ar rai storïau gan bobl â nam ar eu golwg yn*
http://www.actionforblindpeople.org.uk/news/podcasts/

Dolenni eraill i gael rhagor o wybodaeth am fywydau pobl â nam ar eu golwg: www.rnib.org.uk

# 3. Symud ymlaen: Gweld yr ysgrythur mewn ffordd wahanol

Astudiaeth Feiblaidd yw hon ar y prif ddarlleniad o raglen Radio 4 ar gyfer y Grawys 1, ond o bersbectif gwahanol. Gallwch ddarllen y darn ar eich pen eich hun neu ei addasu ar gyfer chwarae rôl mewn grŵp.

## Marc 10.46-52

Roeddwn i wedi bod yn eistedd wrth ymyl y ffordd y tu allan i Jerico drwy'r dydd. Roeddwn yn estyn fy nwylo ac yn gofyn am gardod, gyda'm dilledyn allanol yn fy amddiffyn rhag y llwch a'r baw, wrth i bobl ac anifeiliaid fynd a dod. Roedd yr haul yn boeth ar fy wyneb a'm ceg yn sych. Roeddwn i'n un o nifer o gardotwyr oedd yn gobeithio cael rhywbeth gan y rhai oedd yn dod i mewn ac allan o dref Jerico er mwyn masnachu a chwrdd ag eraill. Oherwydd nad oeddwn i'n gallu gweld, roeddwn i'n clustfeinio am newyddion a storïau ac yn dal ambell beth bach y mae pobl yn aml yn eu colli. Er fy mod i'n ddiolchgar am bopeth gâi ei wasgu i'm llaw neu ei ollwng i'm cwpan, roeddwn i hefyd yn awyddus i wybod mwy am y byd o'm cwmpas, a newyddion o bell.

Roedd Jerico'n llawn bwrlwm oherwydd bod rhywun neilltuol wedi dod i'r dref. Roedd torf yn trafod ymhlith ei gilydd ac yn gobeithio gallu mynd yn agos ato. Roeddwn i'n gallu teimlo'r cyffro, chwilfrydedd, tensiwn, ac ofn hyd yn oed. Roedd y dyn yma'n ffigwr dadleuol. Roedd pobl yn dweud ei fod yn cyflawni arwyddion a gwyrthiau, ei fod yn gallu iacháu, ei fod yma i oresgyn yr hen drefn a'n gwneud yn sanctaidd unwaith eto, ei fod yn sicr o greu trafferth a chael ei ladd am wrthryfela. Wrth eistedd yno o ddydd i ddydd, yn dibynnu ar garedigrwydd a chardod dieithriaid, teimlais fflam o obaith ac awydd o'm mewn, i weld y person sanctaidd hwn oedd wedi dod oddi wrth Dduw, a bod yn un o'i ddilynwyr. Ond roeddwn i'n ddall. Fyddwn i byth yn ei weld, byth yn gallu ei ddilyn unrhyw le, byth yn gallu gwneud unrhyw beth i helpu ei

achos. Ac eto roedd y syniad yn llosgi o'm mewn: petawn i'n gallu gweld, byddai fy llygaid yn edrych ar y person y bu'r proffwydi'n sôn amdano, y Meseia.

Trodd y murmur o'm cwmpas yn weiddi cyffrous. Ymgasglodd pobl o'n cwmpas ni, y cardotwyr. Roedd eu dillad i'w teimlo yn erbyn fy wyneb, ac roedd llwch yn fy ngheg. 'Mae'n dod! Mae'n dod!' medden nhw wrth ei gilydd yn gyffrous. 'Iesu yw e, Iesu o Nasareth'. Sylweddolais i bryd hynny y byddai Iesu'n mynd heibio'n agos iawn ataf, gyda'i holl ddilynwyr a'r dorf yn eu dilyn, i weld beth wnâi e nesaf. Fyddai Iesu byth yn sylwi arnaf fi, yn eistedd ar y llawr ac wedi'm cuddio gan yr holl bobl. Roedd e mor ddall i mi ag oeddwn innau iddo fe.

Felly fe wnes i'r unig beth allwn i. Fe waeddais nerth esgyrn fy mhen: 'Iesu, Fab Dafydd, trugarha wrthyf!' A dyna ben arni. Ar unwaith trodd y dorf arnaf fi gan hisian 'Cau dy ben! Cau dy ben! Elli di ddim galw hwnna arno fe!', oherwydd roeddwn i wedi ei alw'n Feseia trwy gyfeirio ato fel Mab Dafydd. Teimlais rywun yn fy nghicio ac yn fy ngwthio'n galed. Roedden nhw am i mi aros allan o'r golwg. Wedi'r cyfan, cardotyn oeddwn i, roeddwn i'n neb. Ond doeddwn i ddim yn mynd i roi'r gorau iddi, a gwaeddais yn uwch fyth arno 'Fab Dafydd, trugarha wrthyf!' Roedd rhai pobl o'm cwmpas yn mynd i banig ac yn dweud 'Mae'n wallgof! Peidiwch â chymryd unrhyw sylw' drosof. Ond yn sydyn dechreuodd pobl sefyll yn stond. Roedd rhywbeth yn digwydd. Newidiodd y lleisiau. Roedd dwylo rhywun o dan fy mheneliniau yn fy helpu i godi, a chlywais y geiriau 'Mae'n galw arnat. Dos ato.' Allwn i ddim credu'r peth. Roeddwn i wedi bod yn cyrcydu mewn cornel, yn cael fy anwybyddu a'm gorchymyn i fod yn dawel, ond nawr roeddwn i'n sefyll a gallwn deimlo llygaid pawb arnaf. Yn sydyn roedd pawb yn edrych arnaf fi, y dyn dall.

Aethon nhw â mi at Iesu, a ofynnodd 'Beth wyt ti am i mi ei wneud i ti?' Roedd yn rhyfedd ei fod wedi gofyn fel yna, fel petawn i'n gorchymyn iddo ef, ac yntau'n was i mi. Fe ddywedais innau ar unwaith fy mod am allu gweld eto, edrych arno ef a gweld fy iachawdwriaeth. Roedd Iesu fel petai'n deall fy mod am gael llawer mwy na medru defnyddio fy llygaid yn unig. Roeddwn am gael fy ngwneud yn gyflawn, cael fy iacháu, a gallu ei ddilyn a'i wasanaethu. Cyffyrddodd â'm llygaid â'i fysedd a dweud 'dy ffydd sydd wedi dy iacháu'. Roeddwn i'n gallu gweld eto, yn sydyn cliriodd y byd, roedd pethau'n eglur ac roeddwn innau'n teimlo'n llawn diolchgarwch a'r awydd i foli daioni a thrugaredd Duw. Felly fe wnes i beth byddai unrhyw un yn ei wneud, o dderbyn y fath rodd. Fe wnes i ddilyn Iesu ac adrodd yr hanes wrth eraill.

**Rhai cwestiynau i'w hystyried:**

*Pam gwnaeth Iesu ymateb i Fartimeus?*

*Beth dybiwch chi roedd Iesu'n ei olygu drwy ddweud 'dy ffydd sydd wedi dy iacháu?'*

*Yn yr ysgrythur, pa bobl eraill allwch chi feddwl amdanyn nhw na fyddai neb yn debygol o roi sylw iddynt, ond y mae Iesu'n sylwi arnynt? Pam mae e'n sylwi arnynt?*

## 4. Symud i mewn i'r Grawys: golygfeydd yr anialwch

Pan aeth Iesu allan i'r diffeithwch, beth welodd e? Ardal gymharol fach yw Anialwch Jwdea, gyda mynyddoedd Jwdea ar y ffin orllewinol a'r Môr Marw i'r dwyrain. Mae'n cynnwys daearyddiaeth amrywiol o fynyddoedd, clogwyni pigfain gyda cheunentydd a gwelyau afonydd yn eu croesi, a pheth llwyfandir. Yn y tirlun garw hwn roedd modd byw yn yr ogofâu a'r cuddfannau niferus, a byddai gwrthryfelwyr ac alltudion yn aml yn cuddio yn y rhannau mwyaf gwyllt. Byddai pobl eraill yn byw yn yr anialwch neu'n symud o amgylch ynddo a thrwyddo, yn aml gan yrru anifeiliaid neu ddod ag eitemau ar gyfer masnachu yn y trefi. Ond roedd hefyd yn fan lle gallai Iesu adael adeiladau'r dref a gweithgareddau torfol a gweld pobl yr anialwch yng nghyd-destun siapau'r byd naturiol ac effeithiau'r tywydd. Roedd yn fan lle gallai edrych ar fyd naturiol creadigaeth ei Dad a gweld sut roedd planhigion ac anifeiliaid bach yn llwyddo i fyw hyd yn oed o dan amodau garw. Gallai werthfawrogi pwysigrwydd dŵr a sut mae'r tir yn cael ei ffurfio a'i newid gan bresenoldeb dŵr. Yn y fan hon roedd llai o bethau i dynnu ei sylw oddi ar ymddwyn yn naturiol gerbron Duw ac mae'n debygol iddo gael ei atgoffa'n anorfod am hanes hir crwydriadau pobl Israel. Nid damwain yw'r ffaith y dywedir iddo dreulio 40 niwrnod yno, pan ddywedir bod pobl Israel wedi crwydro am 40 mlynedd.

Gallwn ddychmygu i Iesu geisio'r rhanbarth hwn er mwyn gadael i'r amgylchedd a'i bobl ddylanwadu ar ei feddyliau wrth iddo fyfyrio ar ewyllys Duw. Roedd yn fan lle gallai hoelio'i sylw'n llwyr ar Dduw yn haws, heb ddim i dynnu ei sylw na thorri ar ei draws. Daeth yr hyn a welodd â'i feddwl yn ôl at ei bwrpas, sef sut i wasanaethu Duw yn llwyr, a gwneud ei ewyllys fel Mab iddo.

**Rhai cwestiynau i'w hystyried:**

*Beth sy'n tynnu eich sylw ac yn eich atal rhag rhoi sylw manwl i Dduw?*

*Pa fannau yn eich bywyd sy'n 'anialwch' i chi lle mae llai o bethau'n eich atal rhag canolbwyntio ar Dduw?*

*Beth yw nodweddion eich 'anialwch' chi a sut maen nhw'n eich helpu i glirio'ch meddwl, meddwl yn glir, myfyrio neu weddïo?*

*Beth dybiwch chi welodd Iesu pan aeth i'r anialwch a beth oedd arwyddocâd y golygfeydd hynny iddo?*

## 5. Gorffwys ar y Ffordd: gweddi a myfyrdod

**Salm 121.1**

*Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd;*

*O ble y daw cymorth i mi?*

*Daw fy nghymorth oddi wrth yr Arglwydd,*

*Creawdwr nefoedd a daear.*

**Gweddi o Hebreaid 13.20-1**

Bydded i Dduw Tangnefedd,

A ddug yn ôl oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu,

Bugail mawr y defaid,

Trwy waed y cyfamod tragwyddol,

Eich cyflawni â phob daioni,

Er mwyn ichwi wneud ei ewyllys ef;

A bydded iddo lunio ynom yr hyn sydd gymeradwy ganddo,

Trwy Iesu Grist, i'r hwn y byddo'r gogoniant byth bythoedd.

## Ble arall gall y daith hon fynd â mi?

Mae mwy o ddeunydd i'w archwilio yn *Sense Making Faith* yn y bennod 'Taith i mewn i Weld' a gallwch archwilio teithiau a syniadau pellach yn adran Archwilio www.spiritualjourneys.org.uk dan y pennawd 'Gweld'. Mae *Sense Making Faith* yn cynnig dadansoddiad ehangach o synnwyr golwg, bydoedd ysbrydol a theithiau'r rhai na allant weld a barn eraill y tu allan i'r ffydd Gristnogol ynghylch defnyddio'r hyn y maent yn ei weld i gael hyd i Dduw.

Ewch i www.chrisjordan.com i gael rhagor o ddeunydd am dreuliant a gwastraff.

Edrychwch ar waith Yr Athro John Hull *On Sight and Insight, a Journey into the World of Blindness*, Oxford, One World Books 1997 ac *In the Beginning there was Darkness, a Blind Person's Conversations with the Bible*, SCM 2001. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan yr Athro Hull, sef http://www.johnmhull.biz/

Mae Mawrth 1af hefyd yn Ddydd Gŵyl Dewi. I gael rhagor o wybodaeth am Dewi Sant gallwch edrych ar yr adnodd ar gyfer dydd Gŵyl Dewi ar y safle hwn. Fel arall, ewch i www.stdavidscathedral.org.uk i gael gwybodaeth am y gadeirlan sy'n sefyll ar safle ei fynachlog.

Mae'r Gwasanaeth Dyddiol ar Radio 4 o Fawrth 2il i'r 5ed yn cynnig mwy o ddarlleniadau a myfyrdodau i chi wrando arnynt am bobl y newidiwyd eu taith ysbrydol trwy ddod i gysylltiad â Iesu.

**Daw'r Ysgrythur o'r New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition, hawlfraint 1989, 1995, Adran Addysg Gristnogol Cyngor Cenedlaethol Eglwysi Crist Unol Daleithiau America. Fe'i defnyddir drwy ganiatâd. Cedwir pob hawlfraint.**

**Cyhoeddiad © Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon**